Croeso i chi eto i'r myfyrdodau rydym fel caplaniaid yn eu cynhyrchu ar gyfer y Brifysgol, Ac ie, ryden ni wedi cyrraedd yr adeg honno o'r flwyddyn mae Cristnogion yn ei alw'n Adfent. Rydym yn yr wythnosau sy'n arwain at y Nadolig, cyfnod y siwmperi Nadolig, a Jingle Bells yn atseinio drwy'r siopau. Adeg i lawenhau medde nhw, ond mae pawb yn deud fod Nadolig yn mynd i fod yn wahanol y tro hwn. Fedrwn ni ddim anghofio fod y flwyddyn hon wedi bod yn anodd i lawer, ac er fod y flwyddyn newydd yn mynd i weld newid, gyda'r gwyddonwyr yn addo brechiad yn erbyn Covid-19, fydd hi ddim yr un fath.

Amser i baratoi yw'r adfent i fod – paratoi ar gyfer dathlu dyfodiad Iesu Grist. Fel arfer pan fydd rhywun yn holi – Ydech chi'n barod ar gyfer y Nadolig? – yr hyn mae nhw'n ei olygu ydi – ydech chi wedi prynu'r anrhegion i gyd? Wedi trefnu'r addurniadau, wedi ordro'r twrci a'r bwydydd a diodydd i gyd? Ond eleni mi fydd pethau'n dipyn tawelach gyda llai o bartïon, a dim cyfle i gwrdd efo ffrindiau a theulu yr un fath. A chyda'r ansicrwydd am iechyd, swyddi a'r economi efallai bydd rha'n meddwl nad oes llawer i fod yn llawen amdano.

Ond i'r rhai ohonom sy'n dilyn Iesu mae llawer i fyfyrio arno. Yn gyntaf wrth gwrs rydym yn cofio fod Iesu wedi ei eni ym Methlehem, ac er na wyddom yr union adeg o'r flwyddyn y digwyddodd hyn, y peth pwysig yw'r newyddion fod Duw wedi mentro i mewn i'n byd, fel mae'r Beibl yn dweud, i fod yn Waredwr y byd. Wedyn wrth gwrs mae yna edrych ymlaen i Iesu'n dod yn ôl eto, fel mae'r Beibl yn dweud y gwnaiff o rhyw ddydd. Y pryd hwnnw daw nid yn unig i waredu'r rhai sydd wedi credu ynddo, ond hefyd fel barnwr yr holl fyd. Ac mewn cyfnod pryd y bu llawer o brotestio am anghyfiawnderau'r gorffennol a'r presennol, mae'n gysur gwybod y daw dydd pan fydd pob cam yn cael ei unioni.

Ond mae yna ddyfodiad arall rydym yn cael ei gofio – dyfod Iesu i'n calonnau ni. Pan ddaeth ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, doedd dim lle ar ei gyfer yn y llety, ond yn dilyn ei fywyd, ei farwolaeth ofnadwy ar y groes fel Iawn am bechod y byd, a'i atgyfodiad ar y trydydd dydd, rydym yn cael ein gwahodd i berthynas fyw gydag o – perthynas calon sy'n galw am ein ffydd, neu ein ymddiriedaeth – perthynas lle gallwn ddarganfod heddwch gyda Duw wrth iddo ddangos sut y maddeuir ein pechodau, a pherthynas lle daw Iesu yn Arglwydd a Meistr ein bywydau – cysyniad sy'n ddieithr braidd i'n cyfnod ni – ond ef yw'r meistr gorau posib.

Ar adeg pan rydym yn sylweddoli mai peth hawdd fyddai colli'r holl bethau hynny rydym yn eu cysylltu â gŵyl y Nadolig – yr anrhegion, y partïon, y cymdeithasu – beth am gymryd amser i feddwl am yr Un addawodd roi i ni fywyd na fedrwn mo'i golli. Os nad oedd lle yn y llety, tybed na chaiff le yn ein calonnau ni y Nadolig hwn, Fel mae un carol yn ei ddweud:

Fe anwyd Crist - rhyfeddod yw - I farw dros y byd,
A'n galw wna o hyd i ddod A phlygu wrth Ei grud;
Os taena'r byd ei gaddug trwm Ar led dros wlad a thref,
Mae'n olau lle daw Crist o hyd – O! Mentrwn ato Ef!